


Bywydau Llawn

Astudiaeth o'r ddarpariaeth
egwyliau byr i blant a phobl ifanc
sydd ag anableddau, a'u gofalwyr,
yng Nghymru.



03	rôl Comisiynydd Plant Cymru
06	cyflwyniad
08	y Cyd-destun Polisi
12	ein gwaith ymchwil
22	canfyddiadau
58	diwedd glo
66	argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru



Rydyn ni am weld Cymru'n wlad lle caiff plant a phobl ifanc eu parchu, eu gwerthfawrogi, a lle maen nhw'n cael gwrandawriad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel, hapus. Mae'r Comisiynydd yn gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed sy'n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Mae ganddo bŵer hefyd i weithredu ar ran pobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau.

Mae tîm o bobl yn gweithio gyda Keith – yn Abertawe a Bae Colwyn – i'w helpu i wneud y canlynol:

cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod am hawliau plant;


gwrando ar blant a phobl ifanc i gael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw;

cyngori plant, pobl ifanc a'r bobl sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau;

dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc;

codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru.


Mae copiau o'n holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan, a gallwch eu lawrlwytho oddi yno:
www.complantcymru.org.uk



Mae nifer o gyfreithiau, gan gynnwys Deddf Safonau Gofal 2000¹ a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001², sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.

O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru, mae dyletswydd i wneud y canlynol:

- **rhoi sylw i Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhopeth mae e a'i dîm yn ei wneud;**
- **gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ei swyddfeydd a sut mae cysylltu ag e a'i dîm;**
- **annog plant i gysylltu ag e a'r tîm;**
- **gofyn barn plant am ei waith a'i waith yn y dyfodol, a chaniatáu iddyn nhw ddylanwadu ar ei raglen waith; a**
- **gwneud yn siŵr ei fod e a'i staff yn mynd i gwrdd â phlant a phobl ifanc.**



¹ Deddf Safonau Gofal yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth gyfredol sy'n llywodraethu rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru. [20 Gorffennaf 2000]

² Deddf i greu darpariaeth bellach ynghylch Comisiynydd Plant Cymru. [11 Mai 2001]

Nid yw'r gwaith wedi'i gyfyngu i faterion sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sy'n ymwneud â phlant, fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynllunio, trafnidiaeth, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig hefyd yn rhan o gwmpas y rôl.

Gall y Comisiynydd:

- **adolygu effeithiau polisiau, polisiau arfaethedig a darparu gwasanaethau i blant;**
- **edrych yn fanylach ar achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru;**
- **gofyn bod asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar eu llw; a**
- **rhoi cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i eraill sy'n pryderu am eu hawliau a'u llesiant.**

Mae hefyd bŵer ychwanegol pwysig i ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a llesiant plant yng Nghymru a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gylch.

Mae copïau o'n holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan, a gallwch eu lawrlwytho oddi yno:
www.complantcymru.org.uk

Cyflwyniad

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012–13, fe wnes i ymrwymo i gyflawni darn unigryw o waith a fyddai'n edrych ar weithredu Rheoliadau Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012.³

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer trefnu ystod o wasanaethau sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon, ac roeddent yn gofyn bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyhoeddi 'Datganiad Gwasanaeth Egwyliau Byr' erbyn mis Medi 2012. Er i mi gael fy mhlesio wrth weld y Datganiadau Gwasanaeth Egwyliau Byr a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol yn cydnabod rôl bwysig egwyliau byr wrth gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu, at ei gilydd, rwy'n dal heb fy narbwylllo bod y datganiadau'n mynd yn ddigon pell. Mae datganiadau rhai awdurdodau lleol yn mynd ymhellach nag eraill o ran cyfleu pwysigrwydd egwyliau byr wrth ddarparu mynediad i gyfleoedd newydd sy'n cefnogi canlyniadau da i blant a phobl ifanc ag anableddau, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Am yr union reswm hwnnw, fe benderfynais i edrych yn fanylach ar effaith y rheoliadau newydd, fel y cawson nhw eu dehongli trwy ddatganiadau gwasanaeth lleol, bellach o ran y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u gofalwyr.

³ Y rheoliadau hyn yw'r rhai cyntaf i'w llunio mewn perthynas â Chymru o dan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989, sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, fel rhan o'r ystod o wasanaethau maen nhw'n eu darparu i deuluoedd, i ddarparu egwyliau o ofal er mwyn cynorthwyo rhieni ac eraill sy'n darparu gofal i blant ag anableddau.



Ni ellir tanbriso manteision egwyliau byr i blant a phobl ifanc. Mae'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan blant a theuluoedd ynghylch gwerth eu darpariaeth egwyliau byr wedi bod yn aruthrol. Yn ogystal â darparu cefnogaeth werthfawr i rieni a gofalmwr, gall egwyliau byr gyflawni rôl bwysig trwy gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau fwynhau rhyngweithio cymdeithasol trwy weithgareddau chwarae, hamdden ac adloniant. Ar sail hynny, rwyf wedi ymddiddori'n arbennig mewn asesu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael, i ba raddau mae plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u rhieni/gofalmwr yn credu bod y gwasanaethau hyn yn diwallu eu hanghenion penodol, ac a fu eu profiadau unigol fel defnyddwyr gwasanaeth yn rhai cadarnhaol neu beidio.

Ar sail fy nghyfarfodydd gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u gofalmwr, un o'r negeseuon allweddol a gefais yn glir o ganlyniad i'r ymchwil yma yw nad mater syml yw darpariaeth egwyliau byr. Mae'n gymhleth. Y rheswm am hynny yw bod rhaid rhoi ystyriaeth i nifer o ffactorau wrth asesu anghenion plant anabl yng nghyswllt darpariaeth egwyliau byr. Eu hoedran, natur eu hanabledd, ffactorau eraill sy'n ychwanegu at y pwysau yn y cartref, gofynion ariannol, unrhyw frodyr neu chwirydd eraill yn y cartref – does dim 'un ateb i bawb', gan fod amgylchiadau pob teulu'n wahanol. Mae sicrhau darpariaeth briodol, wedi'i theilwra er mwyn ymateb i anghenion unigol yn hanfodol bwysig, er lles y plentyn a'r rhieni/gofalmwr. Ni ellir gorbwysleisio hynny. Serch hynny, rwy'n cydnabod bod angen cydbwysio anghenion y plentyn â'r adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod lleol.

Heb amheuaeth, ni fyddwn wedi gallu cwblhau'r gwaith hwn heb gymorth a barn pawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad mewn amrywiol ffyrdd. O blant a phobl ifanc, rhieni a gofalmwr, i awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol eraill – mae eu barn onest, adeiladol wedi bod yn amhrisiadwy. Dilewyd enwau'r rhai sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn er mwyn diogelu cyfrinachedd a sicrhau eu bod yn parhau'n ddi-enw.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod anabledd fel mater hawliau dynol. Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnal hawl plant i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael y farn honno wedi'i hystyried. Fy ngobaith didwyll yw ein bod ni wedi cyflawni hynny yn yr adroddiad hwn, trwy sicrhau bod lleisiau a barn plant a phobl ifanc ag anableddau, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, yn cael eu clywed yn uchel ac yn eglur ar hyd yr adroddiad hwn.

Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru,
2014

Y Cyd-destun Polisi

Mae Rheoliadau Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 yn rhagnodi sut mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer egwyliau byr i ofalwyr plant sydd ag anableddau yn eu hardal. I gyd-fynd â'r rheoliadau, ceir Canllaw Arfer Gorau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ffocws clir ar anghenion y plentyn ochr yn ochr â rhai'r gofalwyr. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) neu ei gymhwysiad.



Mae rheoliadau 2012 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflawni tri gofyniad –

- sicrhau, wrth greu darpariaeth egwyliau byr, eu bod yn rhoi sylw i anghenion gwahanol fathau o ofalwyr, nid dim ond y rhai a fyddai'n methu parhau i ddarparu gofal heb gael egwyl;
- darparu amrywiaeth o egwyliau fel sy'n briodol yn ystod y dydd, y nos, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol;
- rhoi datganiad gwasanaethau egwyliau byr i rieni, yn manylu ar yr ystod o egwyliau sydd ar gael ac unrhyw feini prawf cymhwyster sydd ynghlwm wrthynt.



Mae'r ddarpariaeth egwyliau byr er budd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Cyfleir hyn yn eglur yn rheoliadau 2012 a'r canllaw sy'n mynd gyda nhw.

Gellir cael gwahanol fathau o egwyliau byr, a chryn amrywiaeth o ran y gweithgareddau a gynigir, eu lleoliad, a'u hamlder a'u hyd.

Gall egwyliau byr gynnwys gofal yn ystod y dydd yng nghartrefi plant sydd ag anabledd neu yn rhywle arall, gofal dros nos yn eu cartref neu yn rhywle arall, gweithgareddau addysg neu hamdden i blant y tu allan i'r cartref, gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo gofalwyr gyda'r hwyr, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Gall egwyliau byr barhau o ychydig oriau i sawl diwrnod. Gallant amrywio hefyd yn ôl ble rydych chi'n byw.

O dan adran 2.2 o'r canllaw arfer gorau sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau, nodir bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu ystod o wasanaethau egwyliau byr, ac y dylent sicrhau'r canlynol fel sy'n briodol:


- (a) Darpariaeth gofal yn ystod y dydd i blant anabl, yn eu cartrefi neu mewn lleoliad arall, gan gynnwys cyfeillio, gwarchod (er enghraifft, lle comisiynir rhywun i ofalu am blentyn sydd, er enghraifft, yn methu gadael cartref) a gwasanaethau sesiynol.
- (b) Darpariaeth gofal dros nos i blant anabl, yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliad arall.
- (c) Darpariaeth a fydd yn galluogi plant anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg a hamdden; a
- (d) Gofal mewn argyfwng, er enghraifft, oherwydd salwch yn y teulu. Os yw'r argyfwng yn ymwneud â phryderon diogelu, rhaid dilyn y canllawiau yn Gweithio gyda'n Gilydd.⁴

⁴ Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. Mae'r canllaw statudol hwn ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, academiâu ac ysgolion rhydd.

Darpariaeth Egwyliau Byr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr angen parhaus am ddarparu gwasanaeth egwyliau byr yn cael ei gydnabod yn y rheoliadau a'r codau ymarfer a fydd yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae darparu gwasanaethau ataliol yn elfen ganolog i'r Ddeddf.

Hyd y gwyddom, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag awdurdodau lleol trwy Rwydwaith Egwyliau Byr Cymru i ddatblygu eu Datganiadau Egwyliau Byr unigol, a bydd y blynyddoedd nesaf yn gyfle i awdurdodau lleol wreiddio darpariaeth egwyliau byr yn eu darpariaeth gwasanaethau ataliol.



Ein gwaith ymchwil

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, rhoddwyd blaenoriaeth i gasglu barn cynifer o ddefnyddwyr gwasanaeth â phosibl. Yr amcan oedd rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u rhieni/gofalwyr rannu eu barn, a hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd. Aeth y Comisiynydd Plant a'i staff ati i ganfod statws cyfredol y ddarpariaeth gwasanaeth egwyliau byr yng Nghymru, a ph'un a oedd y ddarpariaeth honno'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u gofalwyr ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau darlun cywir o ran y ddarpariaeth egwyliau byr gyfredol, datblygodd swyddfa'r Comisiynydd raglen wedi'i theilwra o sesiynau casglu gwybodaeth, a oedd yn cynnwys:



1. Sefydlu Grŵp Ymgynghorol Egwyliau Byr i roi arweiniad ac arbenigedd

Roedd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol yn bennaf yn unigolion oedd yn cynrychioli amrywiol sefydliadau trydydd sector. Gofynnwyd iddynt fod yn rhan ohono yn sgîl eu dealltwriaeth benodol o egwyliau byr a/neu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a'u gofalwyr.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda mwyafrif y grŵp ar sail un i un. Roedd y cyfryw gyfarfodydd yn amhrisiadwy, gan fod y gweithwyr proffesiynol hynny'n medru rhoi cipolwg ar gymhlethdodau egwyliau byr, yn ogystal â chynnig arweiniad a chyngor ehangach.

Cyfarfu'r aelodau gyda'i gilydd yn un grŵp ar un achlysur, er mwyn ystyried a chytuno ar gynnwys yr arolygon ar-lein.

Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

Keith Bowen – Gofalwyr Cymru

Sarah Bowen – Barnardo's

Sue Hurrell – Rhiant

Carolyn Isles – Gweithredu dros Blant

Richard Jones – Cyswllt Teulu Cymru


Trudie Jordan – Tros Gynnal

Catherine Lewis – Plant yng Nghymru

Dr. Carol Robinson – Ymgynghorydd Ymchwil a Datblygu ar ei liwt ei hun

Andrea Storer – Plant yng Nghymru

Rhiannon Williams – Gweithredu dros Blant



2.

Cyfes o sesiynau cyfnewid tystiolaeth mewn amrywiaeth o leoliadau

Un o'r prif offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd oedd y sesiwn cyfnewid tystiolaeth. Strwythurwyd pob un o'r sesiynau hynny ar ffurf trafodaeth anffurfiol gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff addysgu a gweithwyr proffesiynol eraill.

Cynhaliwyd sesiynau cyfnewid tystiolaeth ledled Cymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Cawsant eu cynnal a'u hwyluso gan ysgolion, cyfleusterau preswyl, clybiau ieuentid a grwpiau cymorth i rieni. Ceisiodd y sesiynau cyfnewid tystiolaeth gynhyrchu safbwyntiau a allai hysbysu adroddiad y Comisiynydd, ac a fyddai'n cynnig data ansoddol cadarn i gyd-fynd â'r arolwg ar-lein.

Er mwyn galluogi pawb oedd yn cymryd rhan yn y sesiynau cyfnewid tystiolaeth i deimlo eu bod yn gallu rhannu eu pryderon yn agored mewn amgylchedd hamddenol, cafodd mwyafrif y sesiynau gyda phlant a phobl ifanc eu cynnal ar wahân i'r rhai oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr. Roedd y dull hwn yn sicrhau na allai unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y sesiynau frifo teimladau anwyliaid oedd hefyd yn rhan ohonynt. Arweiniodd at drafodaethau gyda phlant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr na fuasent mor ddiffuant o bosibl petasai pawb mewn un grŵp.

Cynhaliwyd y sesiynau cyfnewid tystiolaeth gyda phlant a phobl ifanc yn bennaf mewn ysgolion, gydag athrawon a staff eraill yn bresennol. Roedd y sesiynau yn cynnwys cyflwyniad gan y Comisiynydd, neu aelod o'i staff, gyda thrafodaeth bord gron anffurfiol yn dilyn.

Arweiniwyd y trafodaethau gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain, gan sbarduno trafodaeth a chyfraniadau bywiog.

Cynhaliwyd sesiwn cyfnewid tystiolaeth y gwahoddwyd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, neu eu cynrychiolwyr, iddi ym mis Chwefror eleni. Cynrychiolwyd 18 o 22 awdurdod lleol Cymru yn y cyfarfod, a gynhaliwyd yn swyddfa'r Comisiynydd yn Abertawe a hefyd, trwy ddolen cynadledda fideo, yn swyddfa'r Comisiynydd ym Mae Colwyn, Gogledd Cymru. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gyfnewid barn am wasanaethau egwyliau byr, a chafwyd cipolwg ar yr heriau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflwyno darpariaeth.


Bu fîm y Comisiynydd hefyd yn cysylltu â chynrychiolwyr sefydliadau allweddol yn y sector gwirfoddol, gan ganfod eu persbectif o ran y ddarpariaeth egwyliau byr yng Nghymru.

Roedd canfod persbectif awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y maes hwn yn bwysig er mwyn sicrhau bod safbwyntiau darparwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â barn defnyddwyr gwasanaeth.



Sesiynau cyfnewid tystiolaeth – pwy fu'n cymryd rhan

- Bu'r Comisiynydd a'i staff yn ymweld â chyfanswm o 11 o ysgolion
- Roedd 3 ysgol yng Ngogledd Cymru ac 8 ysgol yn Ne Cymru
- Ar ben hynny, ymatebodd 2 ysgol yn Ne Cymru i gwestiynau'r Comisiynydd trwy e-bost
- Cyfrannodd 2 glwb ieuentid at y sesiynau casglu gwybodaeth – 1 yng Ngogledd Cymru ac 1 yn Ne Cymru
- Bu 2 uned breswyl yn cymryd rhan
- Roedd 18 awdurdod lleol yn bresennol yn y sesiwn cyfnewid tystiolaeth yn Swyddfeydd Comisiynydd Plant Cymru
- 2 grŵp cymorth i rieni



3.

Arolwg ar-lein i blant a phobl ifanc ac arolwg ar-lein i rieni/ofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwil yma'n cynnwys arolwg ar-lein, oedd hefyd ar gael ar bapur. Cynhyrchwyd dwy fersiwn o'r arolwg – un i blant a phobl ifanc a'r llall i rieni/ofalwyr (neu unrhyw oedolion eraill oedd â diddordeb mewn egwyliau byr oedd yn dymuno ymateb). Lluniwyd yr arolygon a'u hwyluso gan gwmni sy'n arbenigo mewn creu arolygon ar-lein a gydnabyddir fel arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. ⁵

4.

Ymweliadau gwaith maes ag ysgolion, clybiau ieuenctid a chyfleusterau preswyl

Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gwblhau gan gynifer o blant a phobl ifanc ag anableddau â phosibl, ysgrifennodd y Comisiynydd at ysgolion arbennig ledled Cymru i ofyn a ellid rhoi cymorth i blant a phobl ifanc, sy'n derbyn darpariaeth egwyliau byr, a allai ddymuno ymateb i'r arolwg.

⁵ Arolygon ar-lein Viewpoint – mae rhagor o wybodaeth am waith Viewpoint ar gael yma www.vptorg.co.uk

5.

Presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau oedd yn targedu'r rhai sydd â diddordeb byw yn llesiant plant a phobl ifanc sydd ag anableddau

Roedd swyddfa'r Comisiynydd yn bresennol mewn 2 ddigwyddiad Cyswllt Teulu Cymru, un yng Nghaerdydd ac un ym Mhontardawe. Denodd y digwyddiadau nifer sylweddol o deuluoedd a darparu cyfleoedd i swyddfa'r Comisiynydd gynyddu ymwybyddiaeth o'r adroddiad ar egwyliau byr a gwrando ar brofiadau rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau.

Hefyd, aeth staff o swyddfa'r Comisiynydd yng Ngogledd Cymru i Fforwm Hawliau Anabledd yn Llandudno, yn ogystal â mynychu cyfarfod gyda rhieni plant ag anableddau yn Ysgol Anghenion Arbennig Maes Hyfryd a'u cydlynnydd cymorth.

Hefyd fel rhan o'r ymchwil, cyfarfu'r Comisiynydd â Rhwydwaith Egwyliau Byr Cymru a dysgu am y gwaith roedden nhw fel sefydliad wedi cael eu comisiynu i'w wneud ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd y darn o waith yn cynnwys adolygiad o ddatganiadau gwasanaethau awdurdodau lleol er mwyn canfod a oeddent yn addas at y diben. Bu'r Comisiynydd ac aelodau o'i staff hefyd yn mynychu cynhadledd a drefnwyd gan y rhwydwaith, lle bu'r Comisiynydd yn siarad.

6.

Holiaduron papur

Dosbarthwyd holiaduron papur yng Nghynhadledd Rhwydwaith Egwyliau Byr Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, a hefyd mewn digwyddiadau Cyswllt Teulu Cymru. Serch hynny, roedd lefel yr ymateb yn isel iawn, a dim ond 6 arolwg wedi'u cwblhau a ddaeth i law.

Gwaith arall a gwblhawyd fel rhan o'r ymchwil


Bu'r Comisiynydd hefyd yn ysgrifennu at yr holl gynrychiolwyr etholedig yng Nghymru, ar lefel y Cynulliad a San Steffan, i ofyn iddyn nhw gynyddu ymwybyddiaeth o'r darn hwn o waith yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau eu hunain, yn arbennig gydag etholwyr a oedd o bosibl wedi codi pryderon yn flaenorol ynghylch y ddarpariaeth egwyliau byr.

Ymddangosodd erthyglau a darnau nodwedd oedd yn amlinellu'r gwaith egwyliau byr mewn nifer o newyddlenni sefydliadau gwirfoddol, yn ogystal ag mewn cyhoeddiadau ac ar wefannau awdurdodau lleol. Trwy Cyswllt Teulu Cymru dosbarthwyd gwybodaeth hefyd i fwy na 1500 o rieni, gan eu gwahodd i ymateb i arolwg y Comisiynydd.


Y garfan fwyaf o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg oedd y rhai 14-17 oed, gyda rhai 18 oed a throsodd yn creu'r ail garfan fwyaf.

Ymatebwyr i'r Arolwg

- Derbyniwyd cyfanswm o 96 o ymatebion i'r arolwg ar-lein
- Roedd 46 o'r ymatebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc
- O'r rhai a gwblhaodd yr arolwg, roedd 45% yn fenywod a 55% yn wrywod
- Roedd 39% o'r ymatebwyr rhwng 14 a 17 oed ac roedd 37% yn 18 oed a throsodd



Ymatebion i'r Arolwg fesul Ardal Awdurdod Lleol




1		3	3.37%	Blaenau Gwent
2		21	23.60%	Pen-y-bont ar Ogwr
3		3	3.37%	Caerffili
4		12	12.36%	Caerdydd
5		4	4.49%	Sir Gaerfyrddin
6		4	4.49%	Ceredigion
7		1	1.12%	Conwy
8		1	1.12%	Sir Ddinbych
9		2	2.25%	Gwynedd
10		3	3.37%	Sir Fynwy
11		10	6.74%	Castell-nedd Port Talbot
12		5	5.62%	Sir Benfro
13		1	1.12%	Powys
14		6	6.74%	Rhondda Cynon Taf
15		7	6.74%	Abertawe
16		4	4.49%	Bro Morgannwg
17		2	2.25%	Torfaen
18		4	4.49%	Wrecsam
19		2	2.25%	Arall (ni nodwyd ardal eu hawdurdod lleol)

Canfyddiadau

Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn wedi'u gwreiddio yn y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â'u hymatebion i arolwg ar-lein. Mae'r canfyddiadau'n darparu sylfaen ar gyfer neges drosfwaol yr adroddiad hwn – mae egwyliau byr yn fater cymhleth, ac os ydynt i gael eu cyflwyno'n effeithiol, rhaid i amgylchiadau ac anghenion unigol fod ymhlith y prif ystyriaethau wrth wneud penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth.

Un o brif heriau'r adroddiad hwn fu datgysylltu'r materion a ddaeth i'r amlwg, ac ymdrin â phob un ar wahân, fel bod gwell dealltwriaeth o sut mae'r materion yn cysylltu â'i gilydd yn datblygu.



Yn ôl yr ymchwiliad a gynhaliwyd, mae pecynnau egwyliau byr yn dibynnu ar amrywiaeth o wasanaethau'n cydweithio i sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon, e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, darparwyr egwyliau byr, darparwyr adloniant a hamdden amrywiol. Gall y cyfuniad o wasanaethau sy'n ofynnol fod yn wahanol yn achos pob plentyn a pherson ifanc ac eiddo eu rhieni/gofalwyr. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael hefyd yn amrywio o un awdurdod lleol i'r nesaf, fel y mae'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cyrchu'r ddarpariaeth egwyliau byr.

Roedd y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar-lein yn profi amrywiaeth o ddarpariaeth egwyliau byr. Gofynnwyd cwestiynau i'r plant a'r bobl ifanc am y mathau o egwyliau byr roedden nhw wedi'u derbyn hyd yma, a chafwyd yr ymatebion isod o ganlyniad i ddefnydd plant a phobl ifanc o 2 neu fwy o wahanol fathau o egwyliau byr.

Mathau o egwyliau byr a brofwyd

- **Roedd 60% wedi aros mewn tŷ gyda phlant a phobl ifanc eraill**
- **Roedd 50% wedi aros gyda theulu arall**
- **Roedd 53% wedi aros gartref gyda gofalwr (heblaw eu rhiant/gofalwr arferol)**
- **Roedd 61% wedi ymweld â chlwb Sadwrn neu glwb ar ôl ysgol**
- **Roedd 28% wedi bod i wersyll gwyliau**
- **Roedd gan 29% brofiad o gynllun gwyliau**

Profiadau plant a phobl ifanc

At ei gilydd, roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein a'r sesiynau cyfnewid tystiolaeth yn eithriadol o gadarnhaol am y gweithgareddau y buon nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw ar egwyl fer, a chyfeiriwyd at amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau yn eu hatebion – o goginio, nofio a hedfan barcud i wylio DVDs a chwarae ar yr Xbox, mae "Ydyn, maen nhw'n hwyl ac rwy'n cael cyfle i wneud llawer o bethau" yn enghraifft o'r ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd ynghylch unedau preswyl. Rhoddodd 77% ateb cadarnhaol pan ofynnwyd oedden nhw'n mwynhau'r gweithgareddau ar egwyl fer. Fodd bynnag, soniodd canran fechan am weld eisiau eu teulu ac eisiau aros yn eu cartref eu hunain, gan amlygu'r ffaith nad oedd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anableddau am dreulio amser ar wahân i'w hanwyliaid a'i bod yn ymddangos yn anodd i rai plant ddeall, pa mor gadarnhaol bynnag yw'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig, bod angen i'w teuluoedd hefyd gael egwyl o'u cyfrifoldebau gofalu.

Bu'r plant hefyd yn sôn am sut roedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn ystod egwyl fer, ac mae'n ymddangos bod nifer sylweddol o'r plant a'r bobl ifanc, mwy na 75%, yn gosod gwerth ar y pethau difyr roedden nhw'n eu cael i'w gwneud fel rhan o'u darpariaeth egwyliau byr. Pan ofynnwyd iddyn nhw oedden nhw'n teimlo'n ddiogel yn ystod yr egwyl fer, cafwyd ateb cadarnhaol gan 85%, ond er syndod, nid oedd 15% yn teimlo'n ddiogel, ac o bosib mae hynny'n adleisio rhai o'r ymatebion a gofnodwyd yn y sesiynau cyfnewid tystiolaeth, er enghraifft un sylw a wnaed oedd "Mae ofn y tywyllwch arna i".

Wyt ti'n mwynhau mynd i'r "lleoliad preswyl", ac os wyt ti, pam?

"Mae'n hardd. Mae staff da yn gofalu amdanon ni. Dylech chi fynd i weld."

"Dwi'n joio dod i'r lleoliad preswyl er mwyn cael tynnu coes y merched."

"Achos bod e mor braf. Mae'r athrawon wastod yn ein helpu ni."

"Dwi'n hoffi gweld fy ffrindiau."

"Dianc rhag fy mrawd, sy'n boen"

"Gwell bwyd yn y lleoliad preswyl nag yn yr ysgol"

"Dwlu arno fe. Clyd braf."

Os dwyt ti ddim yn mwynhau mynd i'r "lleoliad preswyl", wyt ti'n gallu dweud wrtha i pam?

"Dydw i ddim yn hoffi'r lle preswyl. Dwi'n caru fy nhŷ. Fy lle fy hun yw e. Dwi'n caru Mami a Dadi."

"Tase fe fel y byngalo sy da fi, a bod fy nheulu yno, se hynny'n wych."

"Mae'n ddiflas."

"Dydw i ddim wir yn hoffi mynd i seibiant, maen nhw'n cadw llygad arna i yn y nos, ond mae Dad yn hoffi mod i'n mynd er mwyn iddo fe gael egwyl."

Mae'r iaith a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc ar hyd y gwaith ymchwil hwn i ddisgrifio egwyliau byr wedi amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, defnyddiodd rhai plant a phobl ifanc y term seibiant yn hytrach nag egwyl fer, disgrifiodd rhai nhw fel "cyfnodau preswyl" ac eraill fel "aros dros nos".

Mae'n arbennig o bwysig bod yn ymwybodol o'r iaith a ddefnyddir yng nghyswllt egwyliau byr. Er bod llawer iawn o adborth cadarnhaol gan y plant a'r bobl ifanc, mae rhai o'u hymatebion hefyd yn cyffwrdd â'r galon, er enghraifft, pan fyddan nhw'n defnyddio'r egwyl fer fel cyfle i'w teulu gael egwyl oddi wrthyn nhw. Hefyd, mae'r ffaith bod llawer o frodyr a chwiorydd i blentyn anabl yn cael eu disgrifio fel gofalwyr ifanc yn creu problem arall o ran eu hunaniaeth a sut mae disgrifiadau a labeli o'r math yna'n gwneud iddyn nhw deimlo.

Mae hyn yn awgrymu bod angen ailfeddwl o ddifri am y term egwyl fer, a llawer mwy o werthfawrogiad, er bod anabledd gan blentyn neu berson ifanc, nad yw hynny'n golygu diffyg dealltwriaeth o ran y derminoleg a ddefnyddir.

"Achos bod y teulu'n cael egwyl hefyd"

"Allan o ffordd Mam a'm brawd."

"Da iawn i deuluoedd."

"Maen nhw (rhieni) yn cael egwyl. Gwyllo teledu.

Ddim yn poeni amdana i"

Profiadau rhieni/gofalwyr

Er mwyn rhoi ystyriaeth o ddifri i'r ddarpariaeth egwyliau byr, bu'r ymchwil yn edrych ar bersectif rhieni/gofalwyr yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Roedd barn y rhieni/gofalwyr a fu'n cymryd rhan yn y sesiynau cyfnewid tystiolaeth yn cyfateb i'r ymatebion i'r arolwg ar-lein, "Byddwn i wedi cracio heb y lle yma" oedd un ymateb, a "rydych chi'n teimlo bod dwylo cariadus yn gofalu amdanoch chi" oedd un arall. Roedd mwyafrif y rhieni/gofalwyr oedd yn derbyn pecyn egwyliau byr yn fodlon ac yn eglur iawn ynghylch y manteision iddyn nhw a'u plentyn/plant. Soniodd rhieni am bwysigrwydd y ddarpariaeth a sut, pan oedden nhw'n gweithio'n agos gyda'u darparwr egwyliau byr, roedd lefel uwch o ymddiriedaeth yn cael ei sefydlu, a oedd yn y pen draw yn gweithio orau i'w teulu cyfan. Cyfeiriwyd at y dull hwn hefyd fel un oedd o gryn fudd i frodyr a chworydd, y mae llawer ohonynt yn cyflawni rôl fel gofalwr eilaidd.

"Y gwir amdani yw y bydden ni'n methu ymdopi heb yr uned breswyl."

"Dwy ddim yn cysgu. Yr unig bryd rwy'n cysgu yw pan fydd fy mab yn dod mewn fan hyn. Dyw dwy noson ddim yn ddigon. Mae gen i broblemau iechyd fy hun." Mae e'n gofyn, "Mae popeth yn dod i ben yn 18 – beth wna i? Ydych chi'n iawn heddi, Mam? "

"Rwy'n eithriadol o hapus a ffodus o ran y gefnogaeth rydyn ni'n ei chael fel teulu, ac rwy'n meddwl bod y gweithiwr cymdeithasol sydd gennym ni'n gweithio mor galed i'n helpu ni, fel mae'r gweithwyr cymorth – mae'r gwasanaeth cyfan wedi bod yn wych i ni."

Nid yw pob rhiant/gofalwr wedi cael profiad cadarnhaol o ddarpariaeth egwyliau byr, ac mae hynny'n arwydd y gall mynediad i wasanaethau a chefnogaeth gweithwyr proffesiynol amrywio o un awdurdod lleol i'r nesaf.

"Dydyn ni ddim yn defnyddio gwasanaeth egwyliau byr ar hyn o bryd. Roedden ni'n arfer defnyddio un, ond oherwydd pryder fy mab, roedd e'n methu parhau i ddefnyddio seibiant dros nos, ac maen nhw'n dweud wrtha i fod dim byd arall ar gael iddo fe."

"Dydyn ni erioed wedi cael cynnig unrhyw help, fe wnaethon ni ofyn am apwyntiad gyda'r tîm gwasanaethau cymdeithasol, ond dydyn ni ddim wedi cael un."

Nododd 54% o'r rhieni/gofalwyr hefyd fod angen darpariaeth egwyliau byr arnynt yn wythnosol, gan awgrymu nad oedd amllder cyfredol eu pecyn yn diwallu eu hanghenion yn ddigonol.

Pa mor aml yr hoffech chi i'ch teulu gael gwasanaeth egwyliau byr?

Yn wythnosol	54%
Yn fisol	19%
Bob tri mis	8%
Bob hyn a hyn	19%

Ydych chi'n gallu cyrchu'r gwasanaeth egwyliau byr ar yr adegau sy'n ymateb i angen eich teulu?

Ydyn – pryd bynnag mae ei angen arnon ni	8%
Ydyn – y rhan fwyaf o'r amser	41%
Ddim fel arfer	22%
Na, byth	30%

Barn Awdurdodau Lleol a Gweithwyr Proffesiynol Eraill

Dylai pob sefydliad weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn

Erthygl 3, CCUHP

O dynnu ar y dystiolaeth a rannwyd gan awdurdodau lleol fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, mae'n eglur bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes yn profi nifer o anawsterau yng nghyswllt darparu egwyliau byr. Nid yw'r pontio o wasanaethau plant i rai oedolion mor ddi-fwlch ag y gallai fod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Casglwyd llawer o'r dystiolaeth yn ystod y sesiwn cyfnewid tystiolaeth gydag awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd ym mis Chwefror 2014.

Soniodd gweithwyr proffesiynol am y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion o ran diwylliant a dull gweithredu, a rhanwyd llawer o'r pryderon oedd yn cael eu hamlinellu gan y plant a'r bobl ifanc sydd ag anableddau a'u rhieni/gofalwyr. Hefyd, codwyd yn y sesiwn cyfnewid tystiolaeth y gall fod angen cymorth eiriolaeth ar y rhieni/gofalwyr eu hunain.


Codwyd trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig hefyd fel problem o ran cyrchu'r ddarpariaeth egwyliau byr, a bod angen cynnwys costau teithio wrth ariannu darpariaeth, sydd eto'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol.

Elfen amlwg arall yn y cyfarfod gydag awdurdodau lleol oedd gwasanaethau cyffredinol a'r anawsterau sy'n codi pan nad yw'r gwasanaethau hynny'n hygyrch i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Codwyd hyn fel mater yng nghyswllt yr effaith ar hyder rhiant/gofalwr yn y gwasanaeth pan / os nad yw rhan o'r pecyn egwyliau byr yn hygyrch mewn gwirionedd.

Teimlai gweithwyr proffesiynol hefyd fod yr iaith a ddefnyddid i ddisgrifio'r ddarpariaeth yn gyfyngol, ac nad oedd y term 'egwyl fer' yn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir fel cyfle i blant a phobl ifanc ag anableddau ddatblygu y tu allan i'r cartref teuluol, yn ogystal â chael ei weld fel cyfnod sydd o fudd i'r plant a'r bobl ifanc ac i'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Ar sail yr adborth a dderbyniwyd gan yr awdurdodau lleol, ymddengys bod angen i'r iaith a'r derminoleg newid yng nghyswllt y term "egwyliau byr". Y rheswm am hynny yw ei fod yn peri i rai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yn faich, a bod amser i'w teuluoedd heb fod yn eu cwmni, yn cyfateb i ysgafnhau'r baich dros dro. Hefyd, y ffaith bod brodyr a chwiorydd i blentyn sydd ag anabledd mewn perygl o gael eu labelu fel gofalwyr ifanc a cholli eu hunaniaeth eu hunain. Mae hyn eto yn amlygu'r angen am ddewis iaith yn ofalus iawn.

Amlygodd adborth un awdurdod lleol hefyd fod plant a phobl ifanc sydd ag anableddau am wneud yr un pethau ag unrhyw blentyn neu berson ifanc arall, a bod y nifer uchel o asesiadau yn atal plant a phobl ifanc ag anableddau rhag mwynhau bod yn blant.



Ymatebion Rhieni/Gofalwyr

Ydych chi'n gwybod pa egwyliau byr sydd ar gael yn eich ardal?

Ydw 57% / Nac ydw 43%

Ydy eich plentyn yn aros oddi cartref mewn tŷ gyda phlant eraill ac ati (lleoliad preswyl)?

Ydy 39% / Nac ydy 61%

Ydych chi'n gwybod ble mae cael gwybodaeth am wasanaethau egwyliau byr yn eich ardal chi?

Ydw 48% / Nac ydw 52%

Beth fyddai'r farn am y gwasanaeth wrth aros mewn tŷ?

Gwael	6%
Boddhaol	25%
Da	13%
Da lawn	38%
Rhagorol	19%

Ydy eich teulu'n defnyddio gwasanaeth egwyliau byr ar hyn o bryd?

Ydy 54% / Nac ydy 46%

Beth fyddai'r farn am wasanaeth rhywun sy'n dod i'ch cartref?

Gwael	6%
Boddhaol	18%
Da	18%
Da lawn	29%
Rhagorol	29%

Os nad yw eich teulu'n defnyddio gwasanaeth egwyliau byr, fydddech chi'n hoffi defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny?

Mynd allan i wneud gweithgaredd	60%
Clwb Sadwrn/Clwb leuenctid ac ati	65%
Cynllun Gwyliau	50%

Ydych chi'n gallu cyrchu'r gwasanaeth egwyliau byr ar yr adegau sy'n ymateb i angen eich teulu?

Ydyn – pryd bynnag mae ei angen arnon ni	8%
Ydyn – y rhan fwyaf o'r amser	41%
Ddim fel arfer	22%
Na, byth	30%

Ydych chi'n derbyn yr egwyliau byr y dywedwyd wrthyich chi y byddai eich teulu'n eu derbyn?

Ydyn, yn llwyr	30%
Ydyn, fel arfer	22%
Anaml	26%
Ddim o gwbl	22%

Ydy eich person cyswllt ar gyfer yr egwyliau byr mae eich teulu'n eu derbyn yn hawdd cael gafael arnyn nhw?

Ydyn, bob amser	23%
Ydyn, y rhan fwyaf o'r amser	51%
Ddim fel arfer	11%
Na, byth	14%

Oes rhywun wedi gofyn i chi sut gallai'r gwasanaethau egwyliau byr mae eich teulu'n eu derbyn gael eu gwella?

Oes, yn aml	8%
Oes, weithiau	46%
Braidd byth	12%
Na, byth	35%



Themâu allweddol

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o'r ymchwil, gan gynnwys y canlynol:

- Diben egwyliau byr a dysgu bod yn annibynnol;
- Ymwybyddiaeth, hawl ac ymgysylltiad;
- Cyflawni darpariaeth ddi-fwlch i bobl ifanc 18-25 oed;
- Eiriolaeth, dilyniant ac ansawdd gofal;
- Gwasanaethau cyffredinol, camwahaniaethu a stigma;
- Brodyr a chwirydd a gofalwyr ifanc.

Diben egwyliau byr a dysgu bod yn annibynnol

Dylai plant sydd ag unrhyw fath ar anabledd dderbyn gofal a chymorth arbennig fel eu bod yn gallu byw bywydau llawn, annibynnol.

Erthygl 23, CCUHP

Mae Canllaw Arfer Gorau Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Rheoliadau 2012, yn nodi'n eglur bod egwyliau byr yn wasanaethau y gellir eu defnyddio i gynyddu lefel hyder a gallu plant a phobl ifanc. Fel y dywed Adran 2.16 o'r canllaw, "Bydd yn bwysig cynllunio egwyliau byr a'u darparu i gynyddu annibyniaeth, gyda golwg ar barhau'r ddarpariaeth unwaith mae'r bobl ifanc yn tyfu'n oedolion."

>>>

Ar hyd y gwaith ymchwil hwn mae plant a phobl ifanc wedi dangos yn eglur bod eu hannibyniaeth bersonol eu hunain yn eithriadol o bwysig iddyn nhw. Nododd 93% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd yn glir eu bod yn hoffi'r bobl oedd yn gofalu amdanynt yn ystod yr egwyl fer, ac esboniodd rhai fod treulio amser gyda ffrindiau yn y lleoliad preswyl ('resi') yn caniatáu iddyn nhw ddysgu sgiliau bywyd pwysig oedd yn eu helpu i ddatblygu trefn ddyddiol bersonol, er enghraifft cael cawod a gwisgo'u hunain. Cyfeiriwyd at ddysgu coginio mewn llawer o'r ysgolion, yr unedau preswyl a'r cynlluniau gwyliau, ynghyd ag egwyliau byr eraill, fel un o'r manteision.

Yn ystod y sesiynau cyfnewid tystiolaeth rhannodd rhai rhieni'r wybodaeth fod eu plentyn wedi rhagori ar eu disgwyliadau o ran yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni mewn uned breswyl. Rhannodd nifer o rieni eu bod nhw a'u plentyn wedi teimlo amharodrwydd, oherwydd pryder, cyn mynychu'r sesiwn "aros dros nos" gyntaf, ond unwaith roedd hynny wedi digwydd, roedd eu plentyn wedi elwa'n fawr o dreulio amser oddi cartref.

Fodd bynnag, mae'r gwaith ymchwil yma wedi canfod bod plant a phobl ifanc yn darganfod ac yn mwynhau profiadau newydd mewn meysydd yr oedd eu rhieni/gofalwyr yn tybio na fyddent yn mentro iddynt. Mae'r rhain yn brofiadau a all hybu mwy o annibyniaeth a hyder.

"Dim ond ers iddo fe ddod yma mae e wedi cysgu mewn stafell ar ei ben ei hun neu roi cynnig ar fwyd newydd. Doeddwn i byth yn meddwl y byddai'n ymdopi, ond fe wnaeth e".

"O ran ein mab ieuengaf (mae anableddau gan ein dau fab), rydyn ni'n meddwl y bydde fe'n ddigon parod i fyw yn yr uned breswyl a dod aton ni o bryd i'w gilydd! Mae wedi ceisio gwneud ein cartref yn fwy tebyg i'r uned, ac mae am i'r celfi ddilyn yr un patrwm."

"Ar ôl un noson yn yr uned breswyl, y broblem (gyda fy mab) oedd ei gael e allan"!

"Dyma gyrchfan rhif un bellach. Braidd yn galed i fi, achos fi oedd yn arfer bod yn rhif un. Mae'r staff mor barod i helpu ac mor gefnogol."

Mae'n eglur o'r safbwyntiau a gasglwyd bod gan egwyliau byr y gallu i greu cyfleoedd newydd i lawer o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau, ac yn sgîl hynny greu gwahaniaethau cadarnhaol yn eu bywydau. O'u defnyddio a'u datblygu'n ddeallus, gall yr egwyliau greu llwybr at fyw'n annibynnol i rai pobl ifanc anabl. Gellir defnyddio egwyliau byr i greu cyfleoedd i rai a fydd yn helpu i sicrhau profiad gwaith a datblygu CV. Mae potensial aruthrol, a chadarnheir hynny yn adran 2.4 o'r canllaw, sy'n nodi:

"Bydd awdurdodau lleol am sicrhau eu bod yn datblygu darpariaeth egwyliau byr ddeinamig, gyda chyfuniad o opsiynau egwyliau byr arloesol a..."

Ymwybyddiaeth, Hawl ac Ymgysylltiad

Fel yr amlinellwyd yn adran 3.6 o Ganllaw Arfer Gorau Llywodraeth Cymru, rhaid i deuluoedd sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau fedru cyrchu datganiad gwasanaethau egwyliau byr sy'n gryno ac yn glir.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod ymwybyddiaeth dda gan blant a phobl ifanc o ran beth yw ystyr egwyl fer. Yn ystod y sesiynau cyfnewid tystiolaeth, roedd y mwyafrif yn gwybod beth oedd egwyl fer, ac yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o egwyliau oedd yn bodoli iddyn nhw. Ceir tystiolaeth o hyn hefyd yn yr ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg ar-lein ynghylch lefelau ymwybyddiaeth, lle nododd 64% eu bod yn ymwybodol o gynnwys egwyl fer. Fodd bynnag, pan holwyd ynghylch a oedd egwyl fer yn cael ei hesbonio i'r plant a'r bobl ifanc, nid oedd bron hanner o'r rheiny wedi derbyn gwybodaeth ynghylch beth fyddai'n digwydd iddyn nhw wrth fynd ar egwyl fer, sy'n arwydd o bosibl bod angen gwneud mwy i sicrhau bod nifer uwch o blant yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod yr egwyl.

Dywedodd un rhiant mai "Gwybodaeth yw grym", yn eitha cynnar yn ystod y gwaith hwn. Roedd hi wedi gwneud ei gwaith cartref yng nghyswllt y ddarpariaeth egwyliau byr ac, i ddefnyddio'i geiriau hi ei hun, roedd wedi "brwydro'n galed a dyfalbarhau i sicrhau darpariaeth." Ar sawl achlysur wrth gasglu tystiolaeth, defnyddiwyd geiriau tebyg – "dyfalbarhad", "gwydnwch", "brwydro" – i gyd wedi'u defnyddio i ddisgrifio pam mae rhai rhieni/gofalwyr yn credu eu bod wedi sicrhau pecyn egwyliau byr y maent yn fodlon arno, a hynny er gwaethaf yn hytrach nag oherwydd yr help a'r gefnogaeth a gafwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae llawer o'r rheiny sydd wedi derbyn pecyn o egwyliau byr sy'n diwallu eu hanghenion wedi mynegi teimladau o euogrwydd wrth ystyried teuluoedd eraill sy'n derbyn ychydig iawn, neu ddim darpariaeth o gwbl. Mae ymdeimlad gwirioneddol o gydsafiad ymhlith llawer o rieni, ac mae llawer o dystiolaeth eu bod yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi ei gilydd. Gwelwyd hyn amlycaf yn y sesiynau gyda grwpiau rhieni/gofalwyr.

Bu nifer o rieni/ofalwyr yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn trwy'r sesiynau cyfnewid tystiolaeth, er nad oeddent yn derbyn unrhyw ddarpariaeth egwyliau byr. Dywedodd llawer nad oeddent yn ymwybodol bod cefnogaeth o'r fath yn bodoli, ac y gallent fod yn gymwys i dderbyn cefnogaeth.

Gwaetha'r modd, mae wedi bod yn eithriadol o anodd cael hyd i ddatganiadau ar wefannau sawl awdurdod lleol. Mae'r anhawster hwn ynddo'i hun yn dod yn rhwystr arall y mae'n rhaid i rieni/ofalwyr neu bobl ifanc ei oresgyn wrth chwilio trwy wefannau am wybodaeth y dylai fod yn hawdd dod o hyd iddi.

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi eu datganiad gwasanaethau egwyliau byr ar eu gwefan, ac mae adran 3.6 o'r canllaw yn mynd ymhellach, ac yn nodi:

"...Byddai'n arfer da i awdurdodau lleol ystyried hefyd ffyrdd ychwanegol o ddarparu'r wybodaeth, er enghraifft, mewn fformat papur ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu cyrchu cyfrifiadur. Gall hysbysfyrdau cyhoeddus mewn meddygfeydd a chanolfannau plant hefyd sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch."

Nid yw rhai teuluoedd yn wybodus am brosesau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol. Mae hefyd rieni/ofalwyr i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau sydd ag anawsterau dysgu eu hunain, ac y mae angen cymorth arnynt i ddarganfod yr hyn y gallai fod ganddynt hawl i'w dderbyn.

"Ddim yn gwybod sut mae cael mynediad."

"Dydw i ddim yn gwybod amdano fe nac yn gwybod ydw i'n gymwys."

"Doeddwn i ddim yn gwybod amdany'n nhw."

"Dim syniad, erioed wedi'u defnyddio."

Mae'n destun pryder bod diffyg ymwybyddiaeth gwirioneddol ynghylch egwyliau byr ymhlith teuluoedd a allai fod yn gymwys i dderbyn cefnogaeth y mae mawr angen amdani. Nid oes gan y teuluoedd hyn syniad o beth yw datganiad gwasanaethau egwyliau byr, heb sôn am yr wybodaeth ddylai fod arno. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod y datganiad ar gael ar eu gwefannau, a gyda gwybodaeth ynghylch y meini prawf cymhwyster ar gyfer y ddarpariaeth egwyliau byr a'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael. Mae hyn yn bwysig, yn enwedig gan fod y meini prawf cymhwyster a'r ddarpariaeth yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Nid oedd 43% o rieni/ofalwyr yn gwybod pa wasanaethau egwyliau byr oedd ar gael iddyn nhw yn eu hardal, ac nid oedd 52% yn gwybod ble i fynd i gyrchu'r wybodaeth yn eu hardal. Er y gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am y canfyddiadau hyn, er enghraifft diffyg mynediad i'r rhynggrwyd, diffyg hyrwyddo egwyliau byr yn ardal yr awdurdod lleol a'r angen am fwy o eglurder yng nghyswllt pwyntiau gwybodaeth, mae'n destun pryder nad oedd y rhai

a allai fod â'r angen mwyaf am y gwasanaethau hynny'n gwbl ymwybodol bod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gyhoeddi datganiadau gwasanaethau egwyliau byr. Nid oedd 69% yn ymwybodol ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo datganiadau gwasanaethau egwyliau byr, ac mae hynny'n siom, gan fod datganiadau gwasanaethau egwyliau byr yn ganolog i Reoliadau 2012 Llywodraeth Cymru a'r canllaw sy'n cyd-fynd â nhw.

Dengys y data a gasglwyd fel rhan o'r arolwg ar-lein lefel uwch o ymwybyddiaeth yng nghyswllt asesiad gofalwr. Roedd 75% o'r oedolion a ymatebodd wedi dod yn ymwybodol o'r gwasanaeth egwyliau byr fel rhan o'u hasesiad gofalwr. Yn wir, roedd rhieni/gofalwyr a oedd wedi dod i gysylltiad â'r gwaith ymchwil hwn oedd yn gyfarwydd â rheoliadau a chanllaw 2012. Roedden nhw'n wybodus ynghylch yr hyn y dylai eu hawdurdod lleol fod yn ei ddarparu o ran gwybodaeth am egwyliau byr a darparu gwasanaeth, ac roedd llawer o'r rhieni/gofalwyr hyn yn chwarae rhan weithredol mewn grwpiau oedd yn cynnig cefnogaeth i rieni/gofalwyr eraill plentyn neu berson ifanc ag anabledd, gan geisio ymgysylltu a dylanwadu ar benderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol.

Ac yn olaf, yng Nghymru, ydyn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwybodaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn hygyrch? Ydyn ni'n cymryd pethau'n ganiataol trwy ragdybio bod gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd rywun i eiriol drostynt, a rhywun sy'n gallu darparu'r wybodaeth mae ei hangen arnyn nhw yn y fformat sy'n ofynnol er mwyn diwallu eu hanghenion yn ddigonol? Mae'r elfennau hyn i gyd yn plethu i'w gilydd, a bydd angen ymdrin â hwy fel rhan o ddarpariaeth egwyliau byr yn y dyfodol.

Cyflawni Darpariaeth Ddi-fwlch

Gallai fod sawl pwynt pontio allweddol ym mywyd plentyn neu berson ifanc anabl. Gall y rhain gynnwys aros mewn cyfleuster preswyl dros nos am y tro cyntaf, y diwrnod cyntaf yn yr ysgol, gadael yr ysgol a chychwyn yn y coleg neu symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Gall y cerrig milltir hyn fod yn heriol i unrhyw blentyn neu berson ifanc. Fodd bynnag, i lawer o blant a phobl ifanc ag anableddau, gall fod pwysau ychwanegol ynghlwm wrth yr adegau allweddol hyn yn eu bywydau.

Un pwynt pontio arbennig, y mae'r dystiolaeth yn dangos sy'n achosi'r pryder mwyaf, yw pan fydd person ifanc anabl yn cyrraedd 18 oed. I'r mwyafrif o bobl ifanc, mae eu pen-blwydd yn 18 yn achos dathlu. Gwaetha'r modd, i lawer o bobl ifanc ag anabledd a'u rhieni/gofalwyr, mae'r gwrthwyneb yn wir. Efallai mai'r ffordd orau o grynhoi hyn yw geiriau Dirprwy Bennaeth mewn ysgol arbennig a ddywedodd y gall llawer o bobl ifanc deimlo, wrth gyrraedd 18, fod "yr holl sgaffaldiau'n cael eu tynnu lawr yn sydyn."

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anableddau, a'u rhieni/gofalwyr, wedi disgrifio'u teimladau wrth baratoi ar gyfer eu pen-blwydd yn 18 a pham gall rhai o'r newidiadau sy'n cael eu sbarduno wrth gyrraedd yr oedran hwnnw beri trallod mawr. Mae'n adeg y mae llawer o deuluoedd yn arswydo rhagddo.

Un o'r prif addasiadau y mae'n rhaid i berson ifanc anabl ddod i delerau ag ef yn 18 oed yw dileu'r hawl i gael mynediad i'r uned breswyl lle mae wedi aros fel rhan o'r pecyn egwyliau byr. Amlygwyd hyn yn ystod un sesiwn casglu tystiolaeth mewn ysgol, pan fu'r plant, y bobl ifanc a'r staff addysgu'n rhannu beth sy'n digwydd ar ddiwrnod pen-blwydd person ifanc yn 18.

Mae'r awdurdod lleol, trwy lythyr, yn hysbysu'r person ifanc a'r rhieni/gofalwyr na fyddant bellach yn medru defnyddio'r cyfleuster preswyl lle maent wedi bod yn "aros dros nos", a hynny mewn rhai achosion, ers nifer o flynyddol. Mae'r cyfleuster dan sylw yn ymyl yr ysgol ac yn un y mae'r plant a'r bobl ifanc yn ei ddisgrifio fel rhywbeth "gwyb" ac "anhygoel".

Mae cael gwybod yn 18 oed nad ydych bellach yn gallu defnyddio cyfleuster yr ydych chi'n wir yn mwynhau ymweld ag ef yn bryder arbennig i rieni/ofalwyr a'r plant a'r bobl ifanc y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt.

Mae plant a phobl ifanc wedi disgrifio sefyllfaoedd lle na all ffrindiau, sy'n dal i fynd i'r ysgol, gael mynediad i'r uned breswyl, er bod ffrindiau ysgol eraill sydd heb gael eu pen-blwydd yn 18 eto, yn dal i fynd yno. Dwyseir effaith hynny o ystyried lleoliad gwledig rhai ysgolion a'r anawsterau a ddaw yn sgîl hynny o safbwynt cymdeithasu i lawer o bobl ifanc. Nid gorddweud yw nodi mai'r uned breswyl yw un o'r ychydig leoedd lle gall pobl ifanc sydd ag anabledd ryngweithio â'u cyfoedion.

>>>

“Hapus yno.... trist iawn i ngweld i'n methu mynd yno.” (geiriau person ifanc sydd bellach yn methu mynd i'r uned breswyl sy'n “anhygoel” yn ei farn e, dim ond oherwydd ei fod wedi cael ei ben-blwydd yn 18)

“Dylai fod rheol iddyn nhw allu dal i fynd ar ôl eu pen-blwydd yn 18.” (dyn ifanc yn siarad ar ran pobl ifanc eraill yn ei ysgol)

“Fwy na thebyg dyna un o'r ychydig weithgareddau cymdeithasol maen nhw'n eu gwneud, aros yn yr uned breswyl.” (aelod o'r staff addysgu)

“Mae'n fater arwyddocaol dros ben, a does dim byd yn ei le.” (aelod o'r staff addysgu)

Mae rhai rhieni/gofalwyr sydd wedi ymgysylltu â'r gwaith ymchwil hwn sy'n fodlon ar y broses bontio ôl-18. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif a fu'n ymwneud â'r gwaith ymchwil hwn yn fodlon, ac maent wedi rhannu pryderon difrifol ynghylch y broses ar gyfer pontio ôl-18. Mae'n peri ofn i lawer o rieni/ofalwyr am sawl rheswm, ac mae eu pryder, ar adegau, wedi bod yn amlwg iawn.

Mae rhieni a gofalwyr wedi disgrifio sut maen nhw'n teimlo “eu bod ar ymyl clogwyn”. Yn yr enghreifftiau gwaethaf, does ganddyn nhw ddim syniad beth fydd yn digwydd nesa i'w plentyn, er y gall pen-blwydd y plentyn yn 18 fod wythnos i ffwrdd.

Yn ddiamau, mae dod yn oedolyn yn 18 oed yn destun pryder sylweddol i blant a phobl ifanc a'u rhieni/ gofalwyr fel ei gilydd. Yn wir, hwn fu'r prif destun pryder a rannwyd mewn sesiynau casglu tystiolaeth ac yn yr ymatebion i'r arolwg.

Mae neges glir wedi dod i'r amlwg bod angen i'r pontio ôl-18 ddechrau'n llawer cynharach, ac mae hynny yn digwydd mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o gysondeb ar draws awdurdodau lleol nac, ar adegau, hyd yn oed oddi mewn i awdurdod lleol. Yn wir, mae'r Comisiynydd wedi derbyn hanesion am brofiadau cadarnhaol a negyddol gan deuluoedd sy'n byw yn ardal yr un awdurdod lleol. Mae hyn wedi peri bod rhieni sy'n fodlon ar y broses bontio'n rhyfeddu at rwystredigaeth amlwg rhieni eraill yn ystod y sesiynau casglu tystiolaeth.

Yn ystod yr ymchwil bu'r Comisiynydd yn sgwrsio gyda rhieni oedd yn pryderu am eu marwoldeb eu hunain, ac yn poeni pwy fyddai'n gofalu am eu plant yn y dyfodol.

>>>

“Dyma sy’n ei gadw i fynd, ac mae e’n rhyngweithio gyda phobl eraill.”

“Mae angen i’r pontio ddechrau’n gynt yn achos fy mab – mae ei anghenion mor gymhleth.”

“Rydyn ni i gyd yn bryderus pan fyddan nhw ar fin cyrraedd 18. Rwy’n credu bod angen i’r pontio ddechrau’n 14. Allwch chi ddim disgwyl i’r pontio ddigwydd yn ddiymdrech, a’r plentyn sy’n dioddef.”

“Bydd e’n mynd o’r lle braf yma, gwasanaethau gyda ffrindiau, ac yn mynd i sefyllfa lle does dim byd ganddo fe.”

“Rwy’n dymuno y gallen ni fynd â’r uned breswyl ymlaen gyda ni. Bydd fy mab yn gadael ym mis Hydref 2014, ond dyw’r dyfodol ddim yn glir.”

“Mae’r cynllun yn cael ei adael mor hwyr.”



Eiriolaeth, Dilyniant ac Ansawdd Gofal

Mae gan bob plentyn hawl i ddweud beth yw eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt, ac i gael ystyried eu barn o ddifri.

Erthygl 12, CCUHP

Mae arfer gorau wrth ddarparu egwyliau byr yn cynnwys darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Ymweliadau Preswyl (RVA) annibynnol.⁶ Mae hwn yn fesur diogelu ychwanegol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn, sy'n agored i niwed, ac fe'i cefnogir gan Argymhellion Ymchwiliad Waterhouse 2000 ac Adolygiad Carlile 2002.⁷

Dylai pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd sy'n derbyn egwyliau byr, neu sy'n cael eu cynnig, fedru cyrchu eiriolwr annibynnol. Yn achos y rhai sy'n derbyn egwyliau byr mewn lleoliad preswyl, byddai arfer gorau'n gofyn bod gwasanaeth ymweliadau preswyl annibynnol yn cael ei ddarparu. Cefnogir hyn mewn egwyddor gan Ymchwiliad Waterhouse 2000, ac yn fwy penodol gan Adolygiad Carlile 2002.

Mae'r ymchwil sydd wedi hysbysu'r adroddiad hwn yn cefnogi darparu eiriolwr annibynnol. Er enghraifft, mae ymatebion rhai o'r plant a'r bobl ifanc i gwestiynau'r arolwg ar-lein ynghylch a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwrandawriad, ac a oeddent yn teimlo'n ddiogel, yn dangos pwysigrwydd darpariaeth eiriolaeth annibynnol.

⁶ Gwasanaeth RVA – mae'n caniatáu i eiriolwyr ymweld ag unedau preswyl yn rheolaidd er mwyn cwrdd â phobl ifanc a rhyngweithio â nhw, gan roi cyfle iddyn nhw nodi unrhyw bryderon neu godi unrhyw faterion.

⁷ Cyhoeddwyd yr Adolygiad hwn ym mis Medi 2000 gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penodwyd Panel yr Adolygiad gan y Gweinidog.

Gofynnodd yr arolwg ar-lein nifer o gwestiynau ynghylch a geisiwyd barn plant a phobl ifanc yng nghyswllt eu hegwyll fer. Dengys yr ymatebion yr ymgynghorwyd â mwyafrif y plant a'r bobl ifanc, gyda 69% o'r rhai oedd yn rhan o'r arolwg yn cadarnhau eu bod wedi cael cais am adborth ar ôl cael egwyl fer. Fodd bynnag, nid ymgynghorwyd â 31%, a gallai hynny awgrymu bod angen cryfhau'r trefniadau eiriolaeth yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol. Gofynnodd cwestiynau penagored yr arolwg hefyd â phwy byddai'r plant a'r bobl ifanc yn siarad os nad oedden nhw'n fodlon ar yr egwyl fer, gan gynnwys yn ystod yr egwyl fer ei hun. Soniodd y mwyafrif am fynegi pryderon wrth aelod o'r teulu neu aelod o staff yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth egwyliau byr roedden nhw'n ei phrofi.

O edrych yn fanylach, pwynt diddorol i'w nodi oedd barn gyferbyniol y rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch a oedd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad neu beidio. Yn y sesiynau cyfnewid tystiolaeth wyneb yn wyneb, roedd y plant a'r bobl ifanc wedi'u rhannu'n ddwy garfan o ran oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael gwrandawriad. Fodd bynnag, roedd mwyafrif clir, rhyw 92% o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, yn credu eu bod yn cael gwrandawriad neu beidio yng nghyswllt eu pecyn egwyliau byr.

Mae dilyniant yn hanfodol bwysig mewn nifer o wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae dilyniant yng nghyswllt yr unigolion sy'n cyflawni rol(au) gofalw(y)r cyflogedig yn eithriadol o bwysig. Mae mwyafrif y plant a'r bobl ifanc wedi'i gwneud yn gwbl glir mai eu dewis yw cael gofalwyr cyfarwydd yn gofalu amdanynt. Nid ydynt yn croesawu newid yn yr agwedd hon ar eu gofal. Wrth gwrs, nid yw hyn yn berthnasol ond lle mae'r plant a'r bobl ifanc yn hoffi'r gofalwyr ac yn ymddiried ynddyn nhw.

Soniodd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn gadarnhaol iawn am y rhai oedd yn gofalu amdany'n nhw – p'un a oedd hynny mewn cyfleuster preswyl neu bod gofalwyr yn ymweld â'u cartref a/neu'n mynd â nhw allan. Serch hynny, nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn gwbl fodlon ar y gofal roedden nhw'n ei dderbyn, ac adlewyrchir hynny yn rhai o'r dyfyniadau a gyhoeddwyd.

Mae dilyniant o ran yr ystafelloedd gwely yn y cyfleusterau preswyl lle mae plant a phobl ifanc yn aros yn wirioneddol bwysig i rai. Hefyd, nid yw rhai plant a phobl ifanc am rannu stafell, tra bod eraill eisiau cwmni, a byddai'n well ganddyn nhw rannu. Serch hynny, mae rhai plant a phobl ifanc nad ydyn nhw am rannu ond gyda ffrind, ac nid gyda phlentyn neu berson ifanc doedden nhw ddim yn eu nabod o'r blaen. Mae'n bwysig cadw hyn mewn cof a pharchu hawl plentyn i breifatrwydd, fel y'i cynhelir yn Erthygl 16 o CCUHP.

Mae anghenion gwahanol gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd, a dyna pam mae darpariaeth wedi'i theilwra sy'n diwallu anghenion penodol yn hollbwysig. Os na chaiff hynny ei sicrhau, gall fod yn sicr y bydd rhai darpariaethau egwyliau byr yn methu cyn cychwyn, hyd yn oed.

Elfen arall sydd wedi dod i'r amlwg mewn cyfarfodydd gyda rhieni yw bod plant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Sbectwm Awtistig yn derbyn pecyn egwyliau byr mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, ond nad yw hynny'n digwydd mewn awdurdodau lleol eraill. Mae hefyd yn dibynnu ble ar y ar y sbectwm y maent. Fodd bynnag, ar sail y cyfarfodydd a gafwyd gyda rhieni/gofalwyr fel rhan o'r sesiynau cyfnewid tystiolaeth, mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol sydd heb unrhyw blant na phobl ifanc sydd ag Anhwylder Sbectwm Awtistig yn derbyn egwyliau byr, ble bynnag y maent ar y raddfa. Y rheswm am hynny yw'r amrywiol feini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer mynediad i egwyliau byr.

“Rydw i’n hoffi cael yr un gofalwyr a’r un stafell. Dydw i ddim yn hoffi pan fyddan nhw’n newid gofalwyr.”

“Weithiau mae staff gwahanol. Mae’n iawn. Rydw i’n ddigon hapus da hynny.”

“Rydw i’n hoffi rhai o’r staff, ond nid y staff i gyd.”

“Tasen nhw’n meddwl bod eu plant ddim yn derbyn gofal, fydden nhw ddim yn gadael i ni fynd yno.” (Dyn ifanc yn siarad)

Mae rhieni/gofalwyr wedi mynegi, fel rhagofyniad, bod rhaid bod yn gwbl hyderus ynghylch y rhai sy’n gyfrifol am ofalu am eu plant. Datgelodd llawer o rieni eu bod yn amharod i’r plant aros mewn gofal preswyl ar y cychwyn. Fodd bynnag, ar ôl cyfaddef eu pryderon cychwynnol, cadarnaodd bron pob un o’r rhieni eu bod yn fodlon iawn ar y gofal oedd yn cael ei roi, a’r gwahaniaeth roedd hynny wedi’i wneud i fywydau eu plant yn ogystal â’u bywydau eu hunain.

Wedi dweud hynny, mynegodd lleiafrif o’r rhieni anfodlonrwydd ar y gofal a/neu’r gefnogaeth a roddwyd, “Roedd gyrwyr tacsï gwahanol yn cael eu defnyddio. Sylwodd y Rheolwr Preswyl ar hyn, a newidiwyd y trefniant”, oedd un sylw a wnaed gan riant, a oedd am amlygu’r anghysondebau yng nghyswllt gofal am ei blentyn. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymyriadau proffesiynol priodol ac effeithiol i gefnogi rhieni pan na fydd pethau’n digwydd fel y dylent.

Soniodd rhieni/gofalwyr am eu hymdrechion i ddylanwadu ar wasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw a'u plentyn. Er bod yr ymatebion yn eitha cymysg, cafwyd ymdeimlad clir o rwystredigaeth, yn dangos diffyg grymuso yn achos rhieni/gofalwyr sy'n ceisio gwneud eu gorau dros eu plentyn.

"Gobeithio ein bod wedi gallu gwella'r gwasanaeth ac ansawdd y gofal y mae plant ag anableddau yn eu derbyn ar hyn o bryd. Alla i ddim bod yn sicr faint o'r wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu sy'n dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan ein hawdurdod lleol"

"Rwy'n credu bod ymgynghori wedi digwydd, ond rwyf fi wedi bod yn rhy brysur i fod yn rhan ohono"

"Neb wedi gwranddo am flynyddoedd – gwasanaeth arwynebol fel arfer"


"Gofynnwyd cwestiynau, ond doedd neb yn gwranddo, achos welson ni ddim gwahaniaeth"

Mae gan bawb sy'n gofalu am blant a phobl ifanc sydd ag anableddau ac sy'n gweithio gyda nhw rôl i'w chyflawni o ran cydnabod hawl plentyn i gael ei glywed, a'i helpu i gyflawni ei botensial fel unigolyn.

Rhaid i wrando ar farn plant a phobl ifanc sydd ag anabledd fod mewn lle amlwg ym meddyliau darparwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth egwyliau byr.

Pan holwyd ynghylch y mathau o egwyliau byr fyddai orau gan blant a phobl ifanc, roedd ymatebion y plant a'r bobl ifanc yn datgelu llawer. Nid oedd y mwyafrif am aros oddi cartref, p'un a oedd hynny mewn cyfleuster preswyl neu gyda theulu arall. Doedden nhw ddim, chwaith, am i ofalwr ddod i'w cartref. Mae neges eglur wedi dod i'r amlwg, petai plant a phobl ifanc yn cael dewis, na fyddai'r mwyafrif yn dewis aros oddi cartref mewn tŷ gyda phlant a phobl ifanc eraill, a dywedodd 79% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg nad oedden nhw am aros oddi cartref gyda theulu arall.

Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn amlwg yn ffafrio mynd i glwb Sadwrn, clwb ieuenctid neu glwb ar ôl ysgol, ac mae'r data'n ategu pwysigrwydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc, fel y nodwyd yn y canllaw, yn ogystal â rhieni/gofalwyr ynghylch y pecyn o ddarpariaeth y maen nhw i'w dderbyn. Roedd 71% o'r plant a'r bobl ifanc am weld gwersyll gwyliau'n rhan o'u pecyn egwyliau byr, sy'n awgrymu mai egwyl llawn gweithgareddau yw'r opsiwn mwyaf deniadol i blant a phobl ifanc sydd ag anabledd.



Gwasanaethau Cyffredinol, Camwahaniaethu a Stigma

Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau Erthygl 31, CCUHP

Ar sail yr hyn a ddywedwyd gan blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, dangosodd y gwaith ymchwil hwn nad yw gwasanaethau cyffredinol bob amser yn cyflawni'r hyn a addawyd, ac felly nad ydynt bob amser yn cyfateb i'r hyn a honnwyd amdanynt.

O ganlyniad, maent yn aml yn methu â chyflawni'r hyn y mae eu henw yn ei awgrymu. Amlygwyd hyn yn arbennig yng nghyswllt y diffyg darpariaeth chwarae, hamdden, gwasanaethau ieuencid ac adloniant i lawer o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau.

Yn ystod y sesiynau cyfnewid tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, gwnaed y Comisiynydd yn ymwybodol o enghreifftiau niferus o gyfleusterau amhriodol, nad ydynt yn hygyrch i blant ag anabledd, a sut mae hynny, o'i gyfuno ar rai adegau â staff sydd heb eu hyfforddi, i bob pwrpas yn atal unrhyw blentyn ag anabledd rhag mwynhau ac elwa o adnoddau y mae plant abl yn gallu eu defnyddio heb feddwl na chynllunio llawer. Mae plant a phobl ifanc sydd ag anableddau, yn ogystal â rhieni/gofalwyr, wedi rhannu eu rhwystredigaeth ynghylch annigonolrwydd y gwasanaethau pwysig hyn. Mae llawer o'r farn bod hygyrchedd gwasanaeth yn aml yn dibynnu ar ddim mwy na chod post.

>>>

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anableddau, ynghyd â'u rhieni/gofalwyr wedi sôn am brofi tlodi ar gynifer o wahanol lefelau. Mae rhai sy'n byw ar aelwyd heb gar, ac sy'n dibynnu'n drwm ar gludiant cyhoeddus. Gwaetha'r modd, gall cludiant cyhoeddus olygu mynd ar ddau neu dri bws i gyrraedd darpariaeth egwyliau byr a rhyw fath ar ryngweithio cymdeithasol gyda ffrindiau. Weithiau, mae'r teithio wedi bod yn ormod, ac mae'r egwyl heb ddigwydd. Ymateb un person ifanc ynghylch y pethau y byddai'n hoffi eu newid oedd, "Gallu dal y bws i'r ysgol, er mwyn arbed arian a thanwydd", sy'n dweud cyfrolau am yr anawsterau gwahanol mae teuluoedd yn eu hwynebu.

Yn ystod y sesiynau cyfnewid tystiolaeth, codwyd pryderon ynghylch gwasanaethau cludiant cyhoeddus. Mae un digwyddiad, a rannwyd gan fenyw ifanc, yn tanlinellu pa mor ddifrifol yw'r problemau hygyrchedd y mae plant a phobl ifanc ag anabledd yn eu hwynebu, yng nghyswllt cludiant cyhoeddus, yn ogystal â'r camwahaniaethu digywilydd y mae rhai plant a phobl ifanc ag anableddau yn dod ar ei draws yng Nghymru'r 21ain ganrif. Mae'r fenyw ifanc a rannodd ei stori yn defnyddio cadair olwyn. Esboniodd fod y gyrrwr, pan oedd hi'n teithio ar fws cyhoeddus, wedi gofyn iddi adael y bws wrth yr arosfan nesaf er mwyn gwneud lle i deithwyr eraill. Daeth y fenyw ifanc oddi ar y bws – roedd hi'n arllwys y glaw – ac aros wrth arosfan heb gysgod nes i fws arall gyrraedd.

Er bod i'r materion trafnidiaeth a godwyd fel rhan o'r astudiaeth hon oblygiadau ehangach i blant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, maen nhw'n arbennig o berthnasol i deuluoedd y mae angen iddyn nhw gyrchu'r ddarpariaeth egwyliau byr, ac mae'n faes pwysig i ymdrin ag ef wrth ddatblygu pecynnau egwyliau byr. Os nad yw'r ddarpariaeth yn hygyrch, gallai hynny effeithio ar uned y teulu cyfan, ac yn ganolbwynt i hynny bydd plentyn neu berson ifanc sydd ag anabledd. Mae gwell cynllunio yn allweddol yng nghyswllt teilwra pecynnau a sicrhau bod cludiant dibynadwy, effeithlon ar gael.

"Mae rhaid i'm mab wyllo plant eraill yn chwarae ar y siglenni. Does dim byd yn y sir sy'n ymateb i'w anghenion."

"Mae trafnidiaeth bob amser yn anodd yn ein sir wledig. Does dim ffordd wirioneddol o ddatrys hynny."

"Chafodd y problemau trafnidiaeth mo'u datrys tan y funud olaf. Byddai modd gwella hynny trwy well cynllunio. Ychwanegodd hynny at lefelau straen uchel fy mab."

"Anodd iawn cael gafael ar dtrafnidiaeth."

Brodyr a Chwiorydd a Gofalwyr Ifanc


Rhaid i effaith anabledd plentyn ar ei frodyr a'i chwiorydd fod yn rhan annatod o asesiad y teulu.

Adran 1.7, Canllaw Arfer Gorau Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae amgylchiadau pob teulu'n unigryw, a rhaid adlewyrchu hynny yn y pecyn o ddarpariaeth egwyliau byr maen nhw'n ei dderbyn. Mae gan rai teuluoedd fwy nag un plentyn sydd ag anabledd, a gall anghenion y plant hynny amrywio'n fawr. Ar rai aelwydydd bydd gan blentyn neu blant sydd ag anabledd frodyr neu chwiorydd, ac mae'n bwysig diwallu anghenion yr holl blant mewn teulu o'r fath. Mae'r cyfryw amgylchiadau teuluol yn creu heriau aruthrol, ac mae angen cefnogaeth gan nifer o wasanaethau. Gall darpariaeth egwyliau byr chwarae rôl hollbwysig o ran darparu'r gefnogaeth honno.

Yn ystod sesiynau cyfnewid tystiolaeth gyda rhieni/gofalwyr trafodwyd yr effaith ar frodyr/chwiorydd plentyn ag anabledd yn eitha manwl. Soniodd rhieni/gofalwyr am y cwlwm cryf a'r cariad rhwng brodyr a chwiorydd, ond hefyd am y rhwystredigaeth a all godi. Maen nhw'n disgrifio sut mae eu plentyn/plant sydd heb anabledd ar adegau yn dewis peidio â gwahodd ffrindiau i gartref y teulu oherwydd eu bod yn pryderu y gallai ymddygiad eu brawd neu eu chwaer sydd ag anabledd gael ei gamddeall a pheri tramgwydd. Mae rhieni/gofalwyr wedi sôn am frodyr/chwiorydd yn teimlo eu bod yn cael mwy o gyfle i fwynhau rhai pethau gartref pan fydd eu brawd neu eu chwaer ar egwyl fer. Er enghraifft, byddan nhw'n cael defnyddio mwy ar y cyfrifiadur, y teledu neu'r Xbox.

>>>



Yn ystod sesiwn cyfnewid tystiolaeth, wrth sôn am ei phlant eraill, meddai rhiant/gofalwr, "Maen nhw'n edrych ar y calendr i weld pryd mae'r seibiant. Maen nhw'n cael rhyddid ac yn tynnu'r cyfrifiadur allan."

Soniodd rhieni/gofalwyr hefyd am frodyr a chwiorydd yn teimlo'n anfodlon ynghylch faint o sylw maen nhw'n ei gael, gan fod cymaint yn cael ei roi i'w brawd neu eu chwaer anabl. Mae hyn yn ei dro yn peri i'r rhieni/gofalwyr deimlo'n euog. Dyna pam mae'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan egwyliau byr mor bwysig. Mae'n gallu rhoi cyfle i frodyr a chwiorydd dreulio amser gyda'u rhiant/rhieni, a gall atal unrhyw ddrwgdeimlad sy'n gallu datblygu'n ddigon dealladwy ymhlith plant yn y sefyllfaoedd hyn. Mae rhieni/gofalwyr hefyd wedi sôn am yr angen i frodyr a chwiorydd plant sydd ag anabledd gael gwyliau, er mwyn iddynt hwythau ymlacio a gollwng stêm. Maen nhw wedi sôn pa mor anodd y gall mynd ar wyliau gyda'u holl blant fod, gan nad yw hi'n hawdd dod o hyd i lefydd sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion plentyn neu berson ifanc anabl. Mae rhieni/gofalwyr hefyd wedi sôn am y diffyg gweithgareddau egwyliau byr lle gallai eu plentyn/plant eraill ymuno â'u plentyn anabl, gan yr ymddengys bod diffyg cyfleusterau sy'n darparu ar gyfer rhai sydd ag anabledd a rhai heb anabledd. Petai'r cyfleusterau'n gynhwysol, fyddai hyn ddim yn broblem.

Soniodd rhieni/gofalwyr am bwysau'r rôl ofalu y mae brodyr a chwiorydd yn ei chyflawni. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar aelwydydd lle mae rhiant/gofalwr yn dioddef afiechyd neu'n rhiant sengl. Mae'n rhaid i ofalwyr ifanc ymdopi â phwysau aruthrol, a gall hynny olygu cyfyngu ar eu cyfleoedd. Mae rhai gofalwyr ifanc yn byw ar aelwydydd incwm isel, lle mae prinder arian i ddiwallu anghenion sylfaenol. Mae angen cefnogaeth a llawer iawn o ddealltwriaeth ar bob gofalwr ifanc gan athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn eu cynorthwyo i wireddu eu potensial llawn.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod brodyr a chwiorydd a phlant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn gallu teimlo eu bod yn colli eu hunaniaeth eu hunain. Mae perygl eu bod yn cael eu gweld, yn hytrach nag fel unigolion annibynnol, fel brawd neu chwaer i blentyn sydd ag anabledd, neu eu bod yn cael eu labelu fel gofalwyr. Nid yw'n hawdd atal hyn rhag digwydd, ond mae'n fater eithriadol o bwysig, ac mae'n rhaid ei gydnabod.

Yn 2009, cyflawnodd y Comisiynydd Plant ddarn allweddol o waith ymchwil, sef "Bywyd Llawn Gofal".⁸ Roedd yr adroddiad hwn yn archwilio'r pryderon a fynegwyd yn aml am y rolau a'r cyfrifoldebau, sydd weithiau'n amhriodol, y mae disgwyl i ofalwyr ifanc eu cyflawni.

⁸ Bywyd Llawn Gofal – cyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2009.

Diwedd glo

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd darpariaeth egwyliau byr briodol, hygrych, o ansawdd da i blant a phobl ifanc ag anableddau a'u rhieni/gofalwyr. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sawl canfyddiad sy'n ategu'r neges allweddol bod darpariaeth egwyliau byr yn fater cymhleth, a bod rhaid adlewyrchu newid o ran amgylchiadau ac anghenion yn y ddarpariaeth, gan gydnabod serch hynny yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran darparu'r adnoddau a'r cyfleusterau angenrheidiol mewn cyfnod sy'n heriol yn economaidd. Mae sawl ffactor yn gyfrifol am y prif gymhlethdodau, er enghraifft:



Mae gan bob awdurdod lleol feini prawf cymhwyster gwahanol ar gyfer cyrchu'r ddarpariaeth egwyliau byr.

Er nad yw'n ofynnol meddu ar feini prawf cymhwyster, dengys y gwaith ymchwil hwn fod rhai gan y mwyafrif o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gan nad ydynt yn ofynnol, mae hynny hefyd yn golygu nad oes cyfres gyffredinol o feini prawf.

Mae ystod y ddarpariaeth yn wahanol ym mhob awdurdod lleol.

Gall y ddarpariaeth Egwyliau Byr amrywio'n sylweddol, a gall gynnwys y canlynol:

- Gwasanaeth preswyl dros nos;
- Gwasanaeth yn y Teulu;
- Gwasanaeth cefnogaeth a gwarchod yn y cartref;
- Gweithwyr allgymorth;
- Clybiau ar ôl ysgol;
- Cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau;
- Gwasanaeth cyfeillio/mentora;
- Taliadau Uniongyrchol;
- Gwyliau gweithgareddau preswyl;
- Diwrnodau o hwyl a chynlluniau mynediad anabledd ar gyfer chwaraeon/hamdden
- Clybiau ieuenctid
- Gwasanaeth gofalwyr ifanc
- Clybiau brechwast
- Darpariaeth breswyl mewn ysgolion
- Clybiau gweithgareddau gyda'r hwyr ac ar y penwythnos
- Timau nyrso cymunedol

Mae gan bob teulu wahanol amgylchiadau ac anghenion.

Gan y gall fod mwy nag un plentyn ag anabledd mewn rhai teuluoedd, gall anghenion ac anableddau'r plant hynny fod yn wahanol i'w giydd, a bydd hynny'n rhoi uned y teulu o dan bwysau ychwanegol. Rhaid hefyd ystyried ffactorau eraill fel lleoliad. Bydd rhai teuluoedd yn byw mewn ardal drefol yng Nghymru, ac eraill mewn ardal wledig a/neu gymuned yn y cymoedd – mae'r rhain yn cyflwyno heriau o ran cyrchu darpariaeth egwyliau byr, yn arbennig yn achos y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Yn yr un modd, mae sefyllfa

ariannol teuluoedd yn amrywio. Mae rhai'n gallu ychwanegu at y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn, oherwydd eu bod mewn sefyllfa ariannol gryfach nag eraill. Fodd bynnag, efallai mai'r sefyllfa fwyaf cymhleth oll, sy'n dangos gwahanol amgylchiadau teuluoedd y mae angen gwasanaethau egwyliau byr arnynt, yw'r rhieni hynny sydd ag anghenion arbennig eu hunain, neu sydd o bosibl yn gorfod ymdrechu'n feunyddiol oherwydd afiechyd corfforol neu feddyliol.

Wrth ddadansoddi'r data a gasglwyd, mae barn defnyddwyr gwasanaeth ynghylch y ddarpariaeth egwyliau byr yn amrywio'n fawr. Mae'r data'n dangos bod mwyafrif y rhai sy'n derbyn darpariaeth egwyliau byr yn fodlon ar y gefnogaeth y maen nhw'n ei derbyn. Serch hynny, mae rhai plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn anfodlon ar agweddau ar y ddarpariaeth, ac yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dylai awdurdodau lleol wrando ar bryderon y rhai sy'n anfodlon ar wasanaethau lleol, a lle bo hynny'n rhesymol, dylen nhw geisio datblygu eu gwasanaethau er mwyn ymateb i'r pryderon hynny.

Roedd un pryder a godwyd droeon yn ystod sesiynau cyfnewid tystiolaeth yn ymwneud â'r polisi o ddileu cymhwyster person ifanc, unwaith y byddai'n cyrraedd 18 oed, i barhau i ddefnyddio'r cyfleuster preswyl a oedd wedi bod yn rhan o'r pecyn yn y ddarpariaeth egwyliau byr. Mae'n eglur bod y polisi hwn yn achosi siom aruthrol i lawer o bobl ifanc. Mae hefyd yn cael effaith negyddol ar y cyfleoedd sydd eisoes yn gyfyngedig i lawer o bobl ifanc ag anabledd gymdeithasu â'u cyfoedion.

Yng Nghlanllaw Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Rheoliadau 2012, nodir mai un canlyniad a ddymunir yn y ddarpariaeth egwyliau byr yw datblygu lefel hyder a gallu person ifanc. Yn ddiamau, mae "aros dros nos" yn y "lleoliad preswyl", a mathau eraill o ddarpariaeth, megis clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau gwyliau, yn cyflawni'n union hynny i lawer o blant a phobl ifanc. Maen nhw'n gyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol, ac yn helpu i ddatblygu mwy o annibyniaeth.

Nid yw tynnu gwasanaeth mor bwysig yn ôl ar oed mor arwyddocaol yn gwneud synnwyr o gwbl. Mae llawer o bobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff addysgu a gweithwyr proffesiynol eraill, a fu'n ymwneud â'r darn yma o waith, yn credu y dylai pobl ifanc barhau i gyrchu darpariaeth breswyl ar hyd eu cyfnod ym myd addysg. Mae hynny'n golygu nad ydyn nhw'n cael eu rhoi mewn sefyllfa lle gall eu ffrindiau ysgol, sydd heb gael eu pen-blwydd yn 18 eto, yn dal i fedru cael mynediad i'r gwasanaethau egwyliau byr, ond maen nhw'n methu gwneud hynny.

Mae'r ddeialog ynghylch y polisi hwn yn rhan o naratif llawer ehangach ynghylch pontio. Mae pryderon yn bodoli ynghylch cefnogaeth ddigonol i bobl ifanc 18-25 oed, a rhennir y farn honno gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes. Maen nhw wedi cyffelybu'r pontio ôl-18 i dynnu'r sgaffaldiau a fu'n rhoi cynhaliaeth ar hyd rhan sylweddol o fywyd person ifanc, i ffwrdd yn sydyn, a hynny yn ystod cyfnod o newid sylweddol ym mywyd person ifanc sydd ag anabledd wrth iddo/iddi symud i oedolaeth.

I lawer, nid yw'r pontio o wasanaethau plant i rai oedolion yn llyfn nac yn ddi-fwlch, a dengys y dystiolaeth fod y cynllunio ar ei gyfer yn dechrau'n rhy hwyr. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi cryn bwys ar ddarpariaeth ddi-fwlch i blant, pobl ifanc ac oedolion (dros 25). Serch hynny, mewn llawer gormod o achosion, nid yw hyn yn digwydd i bobl ifanc 18-25 oed, ac mae eu profiadau yn aml ymhell o fod yn llyfn. Er enghraifft, oedran pobl ifanc yn aml yw'r ystyriaeth or-redol, yn hytrach na'u hanghenion a'u galluoedd unigol. Ni ddylai hynny ddigwydd, gan y dylai anghenion y person ifanc fod yn bwysicach nag unrhyw gyfyngiadau oedran mympwyol ar wasanaethau.

Mae'n bwysig cofio, nid yn unig bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn wahanol ar draws awdurdodau lleol, ond hefyd ei fod yn gallu amrywio o fewn yr un awdurdod lleol. Oddi mewn i'r un awdurdod, mae rhieni/gofalwyr o'r farn bod y cynllunio a'r paratoi ar gyfer pontio'n dda, er bod gan eraill farn wahanol. Mae hyn eto yn amlygu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth a gyflwynir a'r dull o wneud hynny yn gyson, ac mae gwersi i'w dysgu o'r arfer da sydd yn bodoli.

Yn yr un modd, mae mynediad i wasanaethau cyffredinol hefyd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mae hwn yn fater pwysig, ac yn arwain at y cwestiwn, "Ydy'r gwasanaethau cyffredinol yn cyflawni'r hyn y mae eu teitl yn ei awgrymu?" Mae'r ymchwil hon wedi dangos bod plant a phobl ifanc sydd ag anableddau yn gallu wynebu rhwystrau sylweddol wrth gyrchu gwasanaethau chwarae, hamdden ac adloniant. Mae argaeledd trafndiaeth ddibynadwy a phriodol hefyd yn broblem fawr i rai plant a phobl ifanc ag anabledd, ac maen nhw'n wynebu anawsterau gwaeth o ran trafndiaeth os ydyn nhw'n byw yng nghefn gwlad Cymru. Mae defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol wedi codi cwestiwn ynghylch beth yw pwynt cymhwyster i dderbyn pecyn o ddarpariaeth egwyliau byr os na all y defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad i wasanaethau allweddol, gan gynnwys y drafndiaeth sy'n hanfodol i'w cludo i'w cyrchfan. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Rhwystr arall wrth gyrchu'r ddarpariaeth yw diffyg ymwybyddiaeth ynghylch y gefnogaeth a allai fod ar gael. Cofnodir y canfyddiad hwn yn yr ymatebion i'r arolwg a hefyd yn ystod y sesiynau cyfnewid tystiolaeth. Nododd rhai rhieni/gofalwyr nad oeddent yn ymwybodol o ddatganiadau gwasanaeth egwyliau byr, nac yn wir, o beth yn union yw egwyliau byr. Rhannodd plant a phobl ifanc, mewn nifer o sesiynau cyfnewid tystiolaeth, y bydden nhw'n elwa o wybod pa wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw yn eu hardal leol. Maen nhw eisiau gwybod am wasanaethau, a hefyd am ddigwyddiadau. Yn y bôn, mae angen gwybodaeth ar blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr am ba wasanaethau arbenigol sy'n cael eu cynnal, ymhle a phryd, sut gallan nhw gael help i gyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael, pa wasanaethau cyffredinol y gallan nhw eu defnyddio, a hynny i gyd mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall.

Mae angen rhoi sylw i'r term "egwyliau byr" ei hun, yn ogystal â chanfyddiad a dealltwriaeth plant a phobl ifanc ohono.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod rhai plant a phobl ifanc sy'n credu mai prif bwrpas egwyl fer yw rhoi egwyl oddi wrthyn nhw i'w rhieni/gofalwyr. Mae'r canllawiau'n nodi'n eglur bod y ddarpariaeth egwyliau byr er lles y plentyn a'r gofalwr, ond nid adlewyrchir hynny yn nheitl Rheoliadau ac Arweiniad 2012. Mae Rheoliadau Egwyliau ar gyfer Gofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 yn deitl camarweiniol, felly dylid rhoi ystyriaeth o ddifri i newid teitl unrhyw reoliadau ac arweiniad yn y dyfodol, er mwyn adlewyrchu'r hyn a geir yn y ddeddfwriaeth ei hun.

Mae angen meddwl eto hefyd ynghylch y term "egwyl fer". Symudwyd i ffwrdd oddi wrth y term "seibiant", a nawr, efallai bod angen i'r "egwyl fer" esblygu, er mwyn defnyddio terminoleg wahanol. Mae angen sicrhau llawer mwy o werthfawrogiad, er y gall plentyn neu berson ifanc fod yn anabl, nad yw hynny'n cyfateb yn awtomatig i ddiffyg dealltwriaeth o ran yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir. Yn hytrach na chychwyn o anabledd plentyn neu berson ifanc, dylid edrych ar hyd a lled eu galluoedd. Mae angen cynnwys plant a phobl ifanc sydd ag anableddau wrth ddatblygu iaith sy'n disgrifio eu sefyllfa neu'r gwasanaethau maen nhw'n eu cyrchu. Mae eu cyfranogiad yn bwysig ac yn amhrisiadwy.



Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y bydd adegau pan fydd angen cefnogaeth ar blant a phobl ifanc ag anableddau i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Mae canfyddiadau ymchwil yn dangos, er bod mwyafrif y plant a'r bobl ifanc sydd ag anableddau yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad, er enghraifft pan fyddant mewn uned breswyl, nad yw pawb o'r un farn. O'r herwydd, mae darpariaeth eiriolaeth annibynnol yn hanfodol bwysig, ac yn anghenraid i blant a phobl ifanc ag anabledd sy'n derbyn egwyliau byr. Gallai eiriolydd annibynnol helpu plant a phobl ifanc sydd ag anabledd i fynegi eu teimladau a'u dymuniadau yng nghyswllt egwyliau byr. Mae rhieni/gofalwyr yn aml yn gweithredu fel eiriolydd i'w plentyn, ond ar rai adegau gall fod gwrthdaro budd os yw eu hanghenion hwythau am egwyl yn gwrthdaro â dymuniadau'r plentyn.

Os yw Erthygl 12 o CCUHP, sy'n cefnogi hawl plentyn i fynegi barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arno/arni, i gael ei chynnal mewn gwirionedd, mae eiriolaeth annibynnol yn rhagofyniad.

Yr hyn sy'n eglur iawn, wrth astudio'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, yw bod gan blant a phobl ifanc sydd ag anableddau yr un hoff a chas bethau â phlant a phobl ifanc sydd heb anabledd. Maen nhw am gael gwrandawriad, heb i bobl eu trin yn nawddoglyd. Maen nhw eisiau treulio amser gyda'u ffrindiau a chael mwy o annibyniaeth, lle bo modd. Maen nhw'n mwynhau ystod eang o weithgareddau, ac yn awyddus i roi cynnig ar rai newydd. Mae pob plentyn a pherson ifanc, p'un a oes ganddynt anabledd neu beidio, yn unigryw, a dylid eu trin felly.

Gall darpariaeth egwyliau byr chwarae rôl bwysig o ran

galluogi plant a phobl ifanc sydd ag anableddau i ddatblygu a meithrin hyder ar sawl lefel wahanol, ac i wireddu eu potensial llawn, ochr yn ochr â chydabod a chefnogi eu hanghenion unigol.

Gall darpariaeth egwyliau byr briodol sicrhau manteision tymor hir sylweddol i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau, yn ogystal ag i'w rhieni/gofalwyr. Ni ddylid tanbrizio ei gwerth, a hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol hwn yn economaidd, mae angen cryfhau'r ddarpariaeth.



Argymhellion

Argymhelliad 1

Galw ar Awdurdodau Lleol i fonitro'r cyflawniad yn erbyn y disgwyliad a fynegwyd yn eu Datganiadau Egwyliau Byr ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau, a'u gofalwyr, ac adrodd i rieni corfforaethol (aelodau etholedig) a rheolwyr gweithredol yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y craffu'n canolbwyntio ar faterion ansawdd a mynediad.

Argymhelliad 2

Galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro cyflawniad Datganiadau Egwyliau Byr Awdurdodau Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau a'u gofalwyr, trwy alw adroddiadau blynyddol i mewn a'u harchwilio.

Argymhelliad 3

Galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sicrhau darpariaeth ddi-fwlch o ran gwasanaethau i oedolion ifanc 18-25 oed sydd ag anableddau.

Argymhelliad 4

Galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth fel bod modd i blant a phobl ifanc ag anableddau barhau i gael mynediad i unedau preswyl, fel rhan o'r ddarpariaeth egwyliau byr, tra'u bod yn dal ym myd addysg.

Argymhelliad 5

Galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diwallu'r anghenion a aseswyd o ran plant a phobl ifanc ag anableddau, a'u gofalwyr.

Argymhelliad 6

Galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn unrhyw ddeddfwriaeth ar egwyliau byr yn y dyfodol, a seilio gwasanaethau i oedolion ifanc (18-25 oed) ar egwyddorion lles pennaf ac asesiad o angen yn hytrach nag oedran.

Argymhelliad 7

Galw ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yng nghyswllt y ddarpariaeth egwyliau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau yn cael eu cyfleu'n glir iddyn nhw, a hynny mewn fformat priodol, hygyrch.

Argymhelliad 8

Galw ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod Datganiadau Egwyliau Byr yn cael eu cyhoeddi mewn lle amlwg ar wefannau awdurdodau lleol, a'u bod ar gael yn eang mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.



0808 801 1000 / 80800*

post@complantcymru.org.uk

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)



@complantcymru


www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch aton ni:

Comisiynydd Plant Cymru

Rhadbost RRGL XLYC BHGC

Abertawe SA7 9FS



Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn gwahanol fformatau drwy ffonio ni ar 01792 765600 neu e-bostiwch post@complantcymru.org.uk

